# CALON Y CARTREF

Cylchgrawn y Preswylwyr
Hydref/Gaeaf 2024




## AWGRYMIADAU UWCHGYLCHU A DIY

Ysbrydoliaeth greadigol gyda Laura McKibbin

## NEWYDDION CYMUNEDOL

Rhannu newyddion a digwyddiadau o gwmpas ein cymunedau

## CROESO CYNNES

Preswylwyr yn symud i'w cartrefi newydd

## AMSER CYSTADLU

Mae talebau siopa ar gael...

# CALON Y CARTREF

Cylchgrawn Preswylwyr — Hydref/Gaeaf 2024

# Cynnwys


## Eich Croeso

03 Croeso gan y Golygydd

## Eich Newyddion

04 Pwyllgor Preswylwyr
06 Llys Erw
08 Balchder 2024
10 Llwybrau ClwydAlyn
12 Cyflogadwyedd
14 Y Cysgu Allan Mawr

## Eich Cymuned

16 DIY SAS
18 Newyddion Cymunedol
22 Datblygiadau











## Eich Cartref

24 Uwchgylchu

## Eich Diogelwch

26 Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau
28 Trwsio Eich Hun
30 Tamprwydd, Llwydni ac Anwedd

## Eich Awgrymiadau

32 Bwydo'n Dda
34 Arbed Arian

## Eich golwg ar...

36 Diwrnod ym mywyd...
38 Cwestiwn ac Ateb: Safonau Ansawdd Tai Cymru a Dringo'r grisiau

## Eich Cystadleuaeth

40 Pos y Castell


ClwydAlyn

**Golygydd:** Laura McKibbin **Dylunio:** Mark Frances
**Cyfranwyr:** Catherine Davies, Holly Reece, Emma Hanson, Janice Peterson, Annie Jackson, James Howsam, Tom Boome, Claire Grundy, Ynyr Parri, Louise Smith-Aldous
**Argraffwyr:** 121 Direct Mail Ltd

# Croeso'r Golygydd

## Helo bawb, a chroeso yn ôl i gylchgrawn preswylwyr ClwydAlyn

**Yn y rhifyn hwn o Gylchgrawn y Preswylwyr, byddaf yn rhannu cip ar rai pethau cyffrous sy'n digwydd yn ClwydAlyn.**

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur gyda chynnydd yn ein cartrefi newydd, preswylwyr, a staff. Bu'n flwyddyn heriol. Mae ein swyddi llwybr wedi rhoi cyfleoedd cyflogaeth gwerthfawr gan ehangu ein timau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Gallwch ddarllen mwy am y swyddi hyn ar dudalen 10.

Rydym hefyd wedi bod yn casglu gwybodaeth gan breswylwyr am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein cymunedau.

Ein nod yw deall ein hanghenion yn well a theilwra ein gwasanaethau yn ôl hynny.

Fel arfer mae Calon y Cartref yn cynnwys ffyrdd hwyliog o gymryd rhan ac ennill talebau, ynghyd â chyngor ar ddiogelwch, awgrymiadau da a'r diweddaraf am bopeth sy'n digwydd yn ClwydAlyn.



Rydym am gadw'r cylchgrawn yn gyfoes, hwyliog a llawn gwybodaeth, felly rhowch wybod i ni os oes rhywbeth y byddech yn hoffi ei weld.

A oes gennych chi stori y byddech yn hoffi ei rhannu yn ein cylchgrawn preswylwyr? Byddem wrth ein bodd yn clywed rhagor amdanoch chi a/neu eich cymuned. Gallai fod yn stori bersonol, awgrymiadau da neu weithgaredd gwych a ddigwyddodd. Gall fod yn rhywbeth o ychydig frawddegau, ychydig o luniau hyd at erthygl lawn y byddwn ni'n eich helpu i'w hysgrifennu. Cofiwch gysylltu:
e-bost **Laura.Mckibbin@clwydalyn.co.uk** neu gallwch alw/anfon WhatsApp ar **0788043100**

HOUSING PERKS

Gostyngiad o hyd at 20% ar y pethau rydych chi'n eu prynu ar-lein yn barod ac mewn siopau gyda Housing Perks. Bydd yr ap am ddim yn eich helpu i arbed arian ar y pethau hanfodol.

GOSTYNGIAD O HYD AT 20%

✓ BWYDYDD ✓ CAR ✓ TANWYDD ✓ FFERYLLFA
✓ DILLAD ✓ GWISG YSGOL A DEUNYDDIAU YSGRIFENNU
✓ EITEMAU DODREFNU A DIY ✓ DIWRNODAU ALLAN I'R TEULU

**SUT MAE'N GWEITHIO**

1. Lawrlwythwch yr ap am ddim i'ch dyfais
2. Prynwch daleb gyda gostyngiad o hyd at 20%
3. Bydd taleb yn ymddangos yn yr ap mewn eiliadau yn barod i chi ei defnyddio

Ar gael gan
Download on the App Store
GET IT ON Google Play

Sganiwch Fi

**SUT I DDECHRAU ARNI**

- Pan fyddwch yn lawrlwytho'r ap, dewiswch Clwydalyn Housing North Wales
- Bydd angen cofrestru eich cyfrif â'ch cyfeiriad ClwydAlyn, felly cadwch eich cyfeirnod tenantiaeth wrth law.



Dechreuwch arbed arian heddiw!



# Dewch i gyfarfod eich aelod newydd o'r pwyllgor preswylwyr Sam

## Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol: Mae preswylwyr a ClwydAlyn yn uno i adeiladu cymunedau cryfach, cefnogol

**Beth wnaeth i chi fod eisiau ymuno â'r Pwyllgor Preswylwyr?**
Roeddwn yn awyddus iawn i ddod yn Aelod o'r Pwyllgor Preswylwyr gan fy mod eisiau cael rhan fwy gweithredol yn fy nghymuned leol, a chael y cyfle i gefnogi ac eiriol dros y preswylwyr. Mae gennyf hefyd ddiddordeb mewn dysgu rhagor am ClwydAlyn, a sut y maent yn anelu i drechu tlodi. Bydd y swydd hon yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i mi fydd yn galluogi i mi gael dylanwad ar y broses o lunio penderfyniadau a helpu i weithredu newid cadarnhaol. Credaf y gall preswylwyr, wrth gydweithio â ClwydAlyn, gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol.

**A oeddech chi wedi bod ar unrhyw Fyrddau neu Bwyllgorau o'r blaen?**
Na, nid wyf erioed wedi cael y profiad o fod ar Fwrdd / yn aelod o Bwyllgor. Mae hyn yn golygu bod y swydd yn newydd iawn i mi.  Rwyf wrth fy modd o gael her, ac rwyf bob amser yn barod i ddysgu pethau newydd felly rwyf wedi cyffroi o fod yn rhan o rywbeth a all wneud newid mawr i gymaint o bobl.

> **"Credaf y gall preswylwyr, wrth gydweithio â ClwydAlyn, gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol."**



Llunio cysylltiadau a rhannu syniadau a chael effaith parhaol yn y gymuned

**Pa agweddau o'r rôl ydych chi'n eu mwynhau fwyaf?**
Rwy'n eithaf newydd i'm swydd, ond, hyd yn hyn, rwyf wedi gwirioneddol fwynhau'r ffaith bod preswylwyr yn rhan mewn mwy o drafodaethau nag yr oeddwn wedi sylweddoli. Rwyf wedi bod yn dyst i farn preswylwyr yn cael gwrandawiad a'i werthfawrogi yn union yr un fath â barn gweithwyr cyflogedig. Rwyf wedi bod mewn cyfarfodydd sydd â thrafodaethau am bob maes yn y byd tai gydag arbenigwyr o'u meysydd perthnasol yn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn gwybod y ffeithiau a'r ffigyrau a sicrhau bod pawb yn deall, gan roi cyfle i eraill ofyn cwestiynau neu wneud ymholiadau.

### A oedd unrhyw beth a wnaeth eich synnu?

Oedd, fe wnaeth yr ymdeimlad o deulu sydd gan dîm ClwydAlyn fy synnu. Roeddwn yn disgwyl gweld tîm clos, ond fe gefais fy synnu'n fawr at y ffordd y roedd pob unigolyn yr oeddwn yn ei gyfarfod yn hynod o gadarnhaol, ac yn amlwg yn mwynhau ei swydd ac yn groesawus iawn. Fe'm harweiniwyd ar daith o gwmpas y swyddfeydd ar fy niwrnod cyntaf ac roeddwn yn teimlo'n rhan o'r teulu yn y 5 munud cyntaf. Mae'n amlwg bod gwerthoedd ClwydAlyn, Ymddiriedaeth, Gobaith a Charedigrwydd yn dechrau gyda nhw!

### Fel Preswyliwr, beth yw'r peth pwysicaf i chi?

Y peth pwysicaf i mi yw helpu i hyrwyddo amgylchedd byw diogel lle mae digon o gefnogaeth a mynediad at gyfleusterau i'n preswylwyr mwyaf bregus. Rwy'n meddwl bod pawb yn haeddu teimlo eu bod yn rhan bwysig o'u cymuned a bod ganddynt gefnogaeth pan fydd arnyn nhw ei angen.



### Beth yw eich gobeithion a'ch uchelgeisiau ar gyfer ClwydAlyn?

Byddwn yn hoffi gweld ClwydAlyn yn dod yn nes a nes at eu cenhadaeth o drechu tlodi. Byddwn yn hoffi eu gweld yn arwain wrth gynnig tai fforddiadwy i breswylwyr gyda mynediad at gefnogaeth a chyfleusterau, gan ehangu eu hymchwil ar gyfleoedd datblygu cynaliadwy.

### A oes unrhyw gyngor y byddech yn ei rannu hefo rhywun sy'n ystyried ymuno â'r Pwyllgor Preswylwyr yn y dyfodol?

Os gallwch chi fod â meddwl agored, fod yn barod i ddysgu a bod wirioneddol eisiau gwneud gwahaniaeth yn eich cymunedau lleol yna byddwn yn eich cynghori yn bendant i ymuno! Mae'r Pwyllgor Preswylwyr yn helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed, gan weithio ar y cyd ag eraill i ymdrin â phroblemau a gweithredu newid cadarnhaol. Bydd y swydd hon yn gadael i chi gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r problemau y mae preswylwyr a ClwydAlyn ei hun yn eu hwynebu.

> **"Mae'r Pwyllgor Preswylwyr yn helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed, gan weithio ar y cyd ag eraill i ymdrin â phroblemau a gweithredu newid cadarnhaol."**

#Dylanwadwch

ClwydAlyn



**#Dylanwadwch - Dywedwch eich dweud! Mae gennym eisiau clywed eich barn am ein Gwasanaethau.**

Mae'r preswylwyr yn ganolog i bopeth a wnawn yn ClwydAlyn ac mae arnom angen i ragor ohonoch roi eich syniadau a'ch adborth er mwyn i ni ddarparu'r gwasanaeth gorau allwn ni.

Mae llu o ffyrdd gwahanol i chi roi eich syniadau/adborth i ni:

- Trwy neges testun
- Trwy e-bost
- Trwy alwad ffôn
- Trwy ddod i gyfarfodydd

**Wyddech chi y gallech chi ennill talebau siopa drwy gwblhau ein harolygon ac ymuno â'n grwpiau ffocws.**

Er mwyn cael gwybod rhagor gallwch fy ffonio ar 07880431004
neu anfon e-bost at
influenceus@clwydalyn.co.uk
neu gallwch ymuno yma
https://www.clwydalyn.co.uk/Influence-Us/





# Preswylwyr Llys Erw a'r ardd maen nhw wedi ei chreu

Preswylwyr Llys Erw yn creu gardd gymunedol sydd wedi ennill gwobrau, gan feithrin ysbryd cymunedol a chynaliadwyedd trwy gynlluniau garddio a bioamrywiaeth trwy gydol y flwyddyn.

**Mae preswylwyr Llys Erw yn Rhuthun wedi gwirioneddol drawsnewid eu cymuned trwy greu gardd gymunedol drawiadol fel canolbwynt i'r cynllun.** Fe wnaethant arddangos yr ardd yn ystod diwrnod "Rhoi ac Ennill" gyda staff ClwydAlyn. Gyda chyllid gan Cadwch Gymru'n Daclus – elusen sy'n gweithio ar draws Cymru i ddiogelu mannau gwyrdd – mae'r preswylwyr wedi derbyn Gwobr Gymunedol Baner Werdd, sydd yn hedfan yn y cynllun erbyn hyn. Mae'r wobr hon yn cydnabod sut y mae'r ardd yn cyfrannu at fioamrywiaeth yn lleol mewn modd cynaliadwy.

Roedd warden y cynllun, Elwyn Jones, wrth ystyried creu'r ardd yn dweud: "Mae'r Preswylwyr wedi bod yn eithriadol o ragweithiol ac wedi cyflawni cymaint gyda'r ardd. Maen nhw wedi gwneud iddi weithio'n fendigedig, ac mae'n gwneud synnwyr ehangu a defnyddio'r mannau o gwmpas y cynllun. Erbyn hyn rydym ar ganol codi twnnel plastig, gyda chefnogaeth grant gan Travis Perkins, felly gall y preswylwyr ofalu am yr ardd trwy'r flwyddyn heb gael eu cyfyngu gan y tymhorau."

Tyfodd y preswylwyr amrywiaeth eang o ffrwythau a llysiau gan gynnwys moron, pys, rhiwbob, tomatos (rhai dan do ac allan), grawnwin, ciwcymerau, afalau, mefus, mafon cochion, nionod coch, garlleg, cennin, ffenigl, corn melys, betys a gellyg - y cyfan er budd y gymuned. Mae'r ardd hefyd yn cynnwys tair ardal fawr i flodau gwyllt,





**“Mae’r ardd wedi ei chynllunio i’w gwneud yn gynhwysol i bobl sy’n defnyddio cymorth i gerdded, ac mae’n bwnc trafod sy’n ein dwyn ni i gyd at ein gilydd.”** – John, Cadeirydd Pwyllgor yr Ardd

sied, tŷ gwydr a chyfleusterau compostio ar gyfer yr holl wastraff organig. Gan fod y Ganolfan Gymunedol yng nghanol y cynllun, ar agor bum diwrnod yr wythnos i grwpiau a gweithgareddau, mae’r preswylwyr yn cael y cyfle i gymryd perchenogaeth lawn a rhedeg popeth eu hunain.

Dywedodd Barney, sy’n byw yn y cynllun, “Rydym yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd. Erbyn hyn gyda’r twnnel yn cael ei hadeiladu gallwn arddio trwy’r flwyddyn. Gall preswylwyr awgrymu beth y maen nhw am ei dyfu a’i nôl pan fydd yn barod. Roedd y cyfan yn arbrofol ar y dechrau, ond rwy’n gweithio ar yr egwyddor eich bod yn dysgu wrth wneud. Rydym hyd yn oed wedi dechrau defnyddio cymysgedd o lo wedi ei falu a phridd i dyfu hadau, sy’n gweithio’n dda iawn. Gyda chefnogaeth ychwanegol gan Cadwch Gymru’n Daclus ar gyfer pecynnau hybu, gwelyau uchel a phridd, mae ein gardd wedi gwirioneddol ddod â’r gymuned at ei gilydd ac mae’n cadw pawb yn brysur ac yn rhan o bethau.”



Ychwanegodd John, Cadeirydd y Pwyllgor sy’n rheoli’r ardd, “Rydym yn annog pawb i ddod allan, boed yn arddwyr profiadol neu beidio. Mae’r ardd wedi ei chynllunio i fod yn gynhwysol, gan fod yn addas i’r rhai sydd â chymorth i gerdded ac anghenion symudedd eraill, ac mae’n gweithredu fel man cyfarfod sy’n ein cysylltu ni i gyd. Rydym hefyd wedi cael cefnogaeth wych gan Wendy Nuttley, tiwtor ar gwrs garddio a ddaeth i’r Caffi Adnoddau ar Stryd y Ffynnon, Rhuthun, yn gynharach eleni. Roedd yn gwrs 12 wythnos, ac mae Wendy wedi parhau i gynnig help a chyngor. Mae gennym gynlluniau mawr, gan gynnwys creu cae blodau gwyllt i beillwyr, a gosod blychau adar ac ystlumod i’r bywyd gwyllt lleol.”

Nododd Andrea, sy’n ymdrin â’r ceisiadau grant, “Mae’r ardd wedi bod yn llawn gweithgarwch ers y dechrau. Rydym hefyd yn ymgeisio am gyllid i osod paneli solar ar ein canolfan gymunedol ac yn bwriadu ychwanegu bwyler trydan - y cyfan mewn ymdrech i leihau ein hôl troed carbon.”

Crynhodd Albert, sy’n ymwneud â’r palu, peintio ac adeiladu ffensys, ymrwymiad y grŵp:

“Rydym bob amser yn rhoi 100% i wneud i’r ardd edrych ei gorau i’n holl breswylwyr.”




# ClwydAlyn yn cefnogi Balchder

## Dathlu Mis Balchder: Anrhydeddu hanes LHDTC+, eiriol dros gynhwysiant a llunio diwylliant o berthyn

**Roedd 1 Mehefin yn nodi dechrau Mis Balchder, mis wedi ei neilltuo ar gyfer dathlu cymunedau LHDTC+ ar draws y byd.** Mae'n dathlu pobl yn dod at ei gilydd mewn cariad a chyfeillgarwch, i ddangos pa mor bell y mae hawliau LHDTC+ wedi dod, a sut y mae gwaith i'w wneud o hyd mewn rhai mannau. Mae'n galw ar bobl i gofio pa mor niweidiol oedd homoffobia ac y gall fod o hyd. Mae mis balchder yn ymwneud â dathlu gwaith pobl LHDTC+, addysg mewn hanes LHDTC+ a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n cael effaith ar y gymuned LHDTC+, mae'n ymwneud â derbyn ac undod.

> **"Mae Balchder yn ymwneud â bod yn falch o bwy ydych chi waeth pwy yr ydych yn ei garu."**



Yn ClwydAlyn, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu diwylliant o berthyn lle'r ydym yn byw ein gwerthoedd o obaith, ymddiriedaeth a charedigrwydd. Trwy gydol Mis Balchder fe wnaethom ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein gweithle a chymunedau.




Trefnodd ein Harbenigwraig Cynhwysiant nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Balchder, fel cynnal 'Wythnos Balchder' yn fewnol, lle gwnaethom addurno ein cynlluniau a swyddfeydd ac fe roddwyd sesiwn 'Gadewch i Ni Siarad' i ysbrydoli gan Lisa Power – Sylfaenydd Stonewall.

Fe wnaeth un o'n haelodau staff talentog grosio addurn allweddi a werthwyd i godi arian ar gyfer Tai Stonewall, sy'n cefnogi pobl fregus o'r gymuned LHDTC+ sydd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref.





**"Trwy gydol Mis Balchder fe wnaethom ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein gweithle a chymunedau."**



Daeth y staff at ei gilydd hefyd i fwyta cacennau, tynnu lluniau yn dangos eu cefnogaeth i Balchder a sgwrsio am eu profiadau bywyd a'r hyn y mae Balchder yn ei olygu iddyn nhw.

Fe wnaethom hefyd fynd i ddigwyddiad Balchder cyntaf erioed y Fflint, oedd yn dangos y gymuned ar ei gorau, gan ddwyn pobl o bob cefndir at ei gilydd i ddangos undod yn eu cefnogaeth.



# ClwydAlyn: Llwybrau

## Cynyddu talent leol: Dewch i gyfarfod wynebau newydd ein Llwybrau Recriwtio

**Yn gynharach eleni, fe wnaethom lansio ymgyrch recriwtio newydd i helpu i gefnogi ein hymrwymiad i greu cyfleoedd sgiliau a gwaith lleol a datblygu ein talent ein hunain.**

Gwelodd y buddsoddiad nifer o gyfleoedd llwybrau yn cael eu cyflwyno ar draws gwahanol wasanaethau. Roeddem am rannu sut mae rhai o'n gweithwyr ar y llwybrau yn setlo yn eu swyddi newydd ac os byddwch yn eu gweld o gwmpas, cofiwch eu croesawu i ClwydAlyn!

### Cian Roberts →

**Llwybr at Swyddog Rheoli Asedau**

Rwy'n rhan o'r tîm Asedau, yn goruchwylio iechyd mewnol ac allanol adeiladau i sicrhau bod gan denantiaid gartrefi iach. Mae fy swydd yn golygu canfod problemau tenantiaid, cynnal arolygon cynlluniau, ac ymdrin ag anghenion cynnal a chadw. Rhoddodd ClwydAlyn y cyfle i mi ddilyn gradd pedair blynedd i Syrfewyr Adeiladau, sy'n fy helpu i gryfhau fy ngwybodaeth, sgiliau a'm gallu. Rwyf hefyd wedi dysgu sut i godi archebion gwaith mewnol a chael dealltwriaeth well o swyddogaeth y Swyddog Rheoli Asedau.



Un o'r rhannau o'm taith sy'n rhoi mwyaf o foddhad yw dysgu trwy brofiad ymarferol a pharatoi ar gyfer dysgu yn y gwaith yn y brifysgol. Ar ôl i mi gwblhau'r cwrs bydd gennyf bortffolio cryf o waith. Rwyf wedi cyffroi am gael dechrau ar fy mhrosiectau fy hun yn fuan, a fydd yn fy helpu ar fy llwybr i ddod yn Swyddog Rheoli Asedau.

## Callum Storr →

### Llwybr at Dechnegydd Cefnogi TG

Yn fy swydd rwy'n helpu cydweithwyr trwy ganfod problemau TG o ran offer neu feddalwedd, gan sicrhau y byddant yn gallu gweithio'n effeithlon heb i TG amharu ar eu gwaith. Ar y dechrau roeddwn yn cymryd rhan mewn amrywiol dasgu TG gan gynnwys trosglwyddo meddalwedd i liniaduron a dyfeisiadau, monitro'r Ddesg Gymorth TG a datrys problemau technegol.

Rhan sylweddol o'm swydd oedd cysgodi fy nghyd-weithwyr i ddysgu eu prosesau ar gyfer gwahanol dasgau ac addasu i'r amgylchedd gwaith. Un o fy hoff dasgau hyd yn hyn oedd gosod dyfeisiadau i gydweithwyr, gan ei fod yn fy helpu i ddeall sut y mae systemau gwahanol yn gweithio gan hefyd gyfarfod cydweithwyr ar draws gwahanol adrannau. Rwyf wedi mwynhau ymweld â safleoedd eraill i weld effaith ehangach y cwmni. Rwy'n edrych ymlaen at gael dechrau ar fy ngradd, gan ehangu fy ngwybodaeth am TG, a'i defnyddio yn fy ngwaith.



## David McCracken

### Llwybr at Saer

Ar fy llwybr i ddod yn saer cymwys, rwyf wedi gweithio ar amrywiol swyddi fel cyfnewid drysau, ffenestri a gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar gartrefi. Rwy'n mynychu'r coleg un diwrnod yr wythnos ac yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi ochr yn ochr â gweithwyr eraill ar y Llwybrau. Un o'r uchafbwyntiau oedd cysgodi seiri profiadol, sydd wedi fy helpu i gynyddu fy ngwybodaeth ymarferol a'm hyder.
Mae'r awyrgylch cyfeillgar yn ClwydAlyn wedi gwneud y profiad hwn hyd yn oed yn fwy pleserus. Rwy'n edrych ymlaen at gael mwy o brofiad ymarferol a datblygu fy sgiliau i gefnogi fy ngyrfa yn y dyfodol fel saer cymwys.



## Lauren Kirkham

### Llwybr at Gynorthwyydd Tai Fforddiadwy

Rwy'n cefnogi Swyddogion Tai Fforddiadwy trwy ymdrin â galwadau, cyfeirio ymholiadau, ymweld â chartrefi a chynorthwyo gyda'r broses ôl-ddyledion. Pan gychwynnais ar y gwaith, fe ddysgais yn fuan iawn am y gwahanol ddaliadaethau tai, y system reoli tai, a sgiliau Excel sylfaenol. Rwyf hefyd wedi cymryd rhan mewn ymweliadau â thenantiaid, fel cynorthwyo i symud, sydd wedi rhoi trosolwg i mi o'r broses gyfan. Cyn ymuno â ClwydAlyn, roeddwn yn gweithio ym maes adwerthu, felly mae'r swydd hon wedi bod yn newid mawr ond cyffrous i mi. Rwyf wedi mwynhau gwirfoddoli yn Llys Eleanor, cyfarfod preswylwyr, a chymryd rhan mewn amrywiol gyrsiau a gweithgareddau. Rwy'n awyddus iawn i ddechrau fy nghwrs Coleg Lefel 2 mewn Tai a pharhau i ddysgu mwy am ClwydAlyn a'r sector tai.

**"Mae'r rôl hon wedi bod yn newid mawr ond cyffrous i mi. Rwyf wedi mwynhau gwirfoddoli, cyfarfod â phreswylwyr, a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Rwy'n awyddus i barhau i ddysgu a thyfu o fewn y sector tai."**

# CYFLOGADWYEDD

## WeMindTheGap - helpu pobl ifanc i gael gwaith

Mae ClwydAlyn yn falch o barhau ei gefnogaeth i WeMindTheGap a'u rhaglen WeGrow sy'n ysbrydoli. Neilltuwyd y cynllun hwn ar gyfer rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 16 i 25, a elwir yn annwyl yn "Gappies". Mae'r elusen yn canolbwyntio ar drawsnewid bywydau trwy roi sgiliau, profiadau a chefnogaeth sydd ar y rhai sy'n cymryd rhan eu hangen i ffynnu yn bersonol a phroffesiynol.

Mae'r rhaglen WeGrow yn gynllun cyflogaeth cynhwysfawr 12 mis. Mae'n dechrau gyda chyfnod chwe mis o leoliadau gwaith wedi eu cyfuno â hyfforddiant bywyd, a gynlluniwyd i gynyddu hyder, datblygu sgiliau ac annog twf personol. Ar ôl hyn, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn derbyn chwe mis o gefnogaeth wedi ei theilwrio i'w helpu i drosglwyddo i gam nesaf eu bywydau, boed hynny'n waith llawn amser, addysg neu hyfforddiant pellach.






Y flwyddyn ddiwethaf, lansiwyd dwy raglen lwyddiannus yn Sir y Fflint a Wrecsam, gan groesawu 20 o Gappies i gyd. Erbyn Mehefin 2024, roedd 17 wedi cwblhau'r rhaglen, llwyddiant anhygoel i'r unigolion ifanc a'r elusen. O'r rhain, cafodd 12 Gappy waith llawn amser, gan gynnwys un a ymunodd â thîm ClwydAlyn. Penderfynodd un arall fynd i addysg llawn amser, tra mae'r gweddill yn dal i gael budd o gefnogaeth barhaus gan WeMindTheGap.

Wrth edrych ymlaen, mae'r rhaglen WeGrow 2024/25 eisoes ar waith yn Sir y Fflint. Roedd ClwydAlyn yn falch iawn o groesawu'r Gappy cyntaf yn y tîm Asedau, lle cafodd brofiad ymarferol gwerthfawr a chynyddu ei sgiliau mewn amgylchedd cefnogol.

Mae ein cydweithio gyda WeMindTheGap yn esblygu ac rydym wedi cyffroi o gyhoeddi bod cyfle newydd yn awr ar y gweill i breswylwyr Wrecsam. Mae'r cynllun hwn yn anelu at ymestyn cyrraedd y rhaglen, gan gynnig cyfle i hyd yn oed fwy o bobl ifanc i greu dyfodol mwy disglair iddyn nhw eu hunain.

Trwy ein partneriaeth barhaus, mae ClwydAlyn yn parhau i fod wedi ymrwymo i gael effaith ystyrlon ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Trwy gefnogi WeMindTheGap, nid yn unig rydym yn meithrin storïau o lwyddiant unigol ond rydym hefyd yn cyfrannu at weledigaeth ehangach o gydraddoldeb, cyfle a grymuso'r genhedlaeth nesaf.



## Project Search

DFN Project | SEARCH

Roeddem yn falch iawn o ddathlu graddio ein hinterniaid o raglen Project Search 2023/2024 y mis Gorffennaf hwn. Roedd y garreg filltir hon yn nodi penllanw blwyddyn o ymroddiad, dysgu a thwf personol i saith o ddysgwyr anhygoel.

Gweithiodd pob un o'r graddedigion yn ddiflino trwy gydol y rhaglen, gan gydweithio gyda'u cydweithwyr a chymryd camau anferth yn eu datblygiad proffesiynol a phersonol.

Rydyn yn arbennig o falch o rannu'r wybodaeth bod un o'r graddedigion wedi sicrhau contract tymor penodol gyda ClwydAlyn yn fuan ar ôl cwblhau'r rhaglen, sy'n dyst i'r sgiliau a hyder a gawsant yn ystod eu hamser gyda ni.

Mae'r llwyddant hwn yn adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae Project Search yn ei gael wrth greu llwybrau ystyrlon at gyflogaeth.

Wrth edrych ymlaen, mae cohort 2024/25 yn awr yn ei chanol hi, gan groesawu wyth intern newydd brwdfrydig wrth iddyn nhw gychwyn ar daith eu gyrfa.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yr interniaid yma yn cael profiad ymarferol gwerthfawr, yn cael cefnogaeth wedi ei theilwrio, ac yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ffynnu yn y gweithle.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi ein hinterniaid bob cam o'r ffordd ac rydym wedi cyffroi o weld y cohort newydd yn tyfu a llwyddo fel rhan o'r rhaglen Project Search.

Cynlluniau fel hyn sy'n parhau i amlygu grym cyfle, mentoriaeth a gwaith tîm wrth drawsnewid bywydau ac adeiladu dyfodol.




# Y cysgu allan mawr blynyddol

Cymuned yn uno ar gyfer yr 11eg Cysgu Allan Mawr, yn codi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau sy'n achub bywydau

**Yn ystod mis Hydref, ymunodd sefydliadau lleol â ni a fentrodd i ganol yr elfennau i godi arian yn ein Cysgu Allan Mawr blynyddol.**

Nod y Cysgu Allan Mawr yw codi ymwybyddiaeth o her ac effaith digartrefedd a chodi arian ar gyfer gwasanaethau hanfodol. Dyma'r 11eg flwyddyn i ni gynnal y digwyddiad, a welodd aelodau o dîm ClwydAlyn a'u plant, Ambiwlans Awyr Cymru, DHL Logistics ac Enhanced Medical yn ymgasglu rhwng 9pm a 6am ar 12 Hydref yn ein prif swyddfa yn Llanelwy i gysgu allan am y noson.

> **"Mae'r digwyddiad hwn yn fwy na dim ond codi arian, mae'n ymwneud â sefyll gyda'r rhai sy'n ddigartref ac atgoffa ein hunain y gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth."**
> – Edward Hughes Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chefnogaeth ClwydAlyn



Cychwynnodd y noson gyda chwis grŵp i godi'r hwyliau, ac yna ymweliad annisgwyl gan ALG Security, a wnaeth roi pizzas yn garedig iawn i roi hwb pellach i ysbryd pawb. Cymerodd cyfanswm o 25 o bobl ran, gan godi £1,500 ac mae'r rhoddion yn dal i ddod i mewn.



Y rhai gymerodd ran yn yr 11eg Cysgu Allan Mawr yn ymgasglu yn Llanelwy, gan wynebu noson oer o Hydref.






Bydd yr arian a godwyd yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng ein Gwasanaethau Digartrefedd ac Ambiwlans Awyr Cymru, fydd yn sicrhau y bydd gwasanaethau i achub bywyd a newid bywyd yn gallu parhau i gefnogi'r rhai y mae digartrefedd yn effeithio arnyn nhw.

Dywedodd Edward Hughes, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chefnogaeth ClwydAlyn, a gymerodd ran yn y cynllun:

"Dyma'r pedwerydd tro i mi gwblhau'r Cysgu Allan Mawr ac mae'n fy synnu yn flynyddol pa mor heriol ydio. Er mai dim ond hydref oedd hi, roedd y noson yn hir, tywyll ac eithriadol o oer. Mae'n brofiad sobreiddiol sy'n rhoi cip bach i ni ar yr hyn y mae unigolion digartref yn ei wynebu yn ddyddiol. Rydym yn anhygoel o ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu ac sy'n parhau i gefnogi'r achos hwn.

Mae'r digwyddiad hwn yn fwy na dim ond codi arian, mae'n ymwneud â sefyll gyda'r rhai sy'n ddigartref ac atgoffa ein hunain y gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth."

**"Mae'n brofiad sy'n gwneud rhywun yn wylaidd iawn ond mae'n un yr ydym yn ddigon lwcus i orfod ei ddioddef unwaith y flwyddyn yn wahanol i lawer o bobl ddigartref yng Ngogledd Cymru."** – Debra Sima, Rheolwr Codi Arian Rhanbarthol Ambiwlans Awyr Cymru

Dywedodd Debra Sima, Rheolwr Codi Arian Rhanbarthol Ambiwlans Awyr Cymru: "Rwyf wedi cymryd rhan yn y Cysgu Allan Mawr ers nifer o flynyddoedd yn awr, mae'n codi arian hanfodol i Wasanaethau Digartref ClwydAlyn ac i Ambiwlans Awyr Cymru sydd, ill dau, yn rhoi cefnogaeth hanfodol i lawer o bobl yn flynyddol. Mae'n brofiad sy'n gwneud rhywun yn wylaidd iawn ond mae'n un yr ydym yn ddigon lwcus i orfod ei ddioddef unwaith y flwyddyn yn wahanol i lawer o bobl ddigartref yng Ngogledd Cymru.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi ein digwyddiad".

# DIY SAS

**Mae cynllun DIY SAS ClwydAlyn yn uno staff, aelodau o deuluoedd a chontractwyr mewn ymdrechion gwirfoddol i drawsnewid lleoedd cymunedol trwy brosiectau ymarferol a chyd-ymroddiad.**

Ar ddechrau 2024, fe wnaeth tîm Chwaraeon a Chymdeithasol ClwydAlyn (SAS) feddwl am y syniad DIY SAS fel ffordd o gynnig dyddiau hwyliog i staff ar draws y sefydliad a rhoi rhywbeth yn ôl i breswylwyr a chymunedau. Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i staff, aelodau o'u teuluoedd a chontractwyr i roi eu hamser i brosiectau lleol a gweithio i wella lleoedd cymunedol o gwmpas ein cynlluniau.

Ers ei lansiad swyddogol ym mis Ebrill, mae DIY SAS wedi cwblhau saith prosiect, yn cynnwys dros 73 o aelodau o'r staff, aelodau o'u teuluoedd a chontractwyr sydd gyda'i gilydd wedi gwirfoddoli mwy na 365 awr o'u hamser. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni!





PLAS TELFORD ↑

LLYS EMLYN WILLIAMS ↓









## TAN Y FRON ↓





## PENTRE MAWR ↓









## GARDEN CITY ↓









## LLYS ELEANOR ↓









ClwydAlyn | O gwmpas ein cymunedau

# Digwyddiadau cymunedol

Dathlu Cymunedau: Tymor o hwyl, dathliadau ac agosatrwydd ar draws ein cartrefi

## Tan y fron

Dathlu degawd o gymuned, chwerthin a llawer o gariad yn Nhan y Fron, Llandudno! Wrth iddyn nhw ddathlu eu 10 Mlwyddiant ar yr 14 o Fehefin.

Cyfarchion i'r tîm gwych a phawb a ymunodd â ni yn ystod y diwrnod hyfryd. A chanmoliaeth arbennig i'r Ghostbuskers am yr adloniant.







## Maes-glas

Am hwyl gawsom ni yn Niwrnod Hwyl Preswylwyr Maes-glas ym mis Awst! O sgyrsiau difyr i baentio wynebau gwahanol, roedd yn ddiwrnod i'w gofio.

Cyfarchion i bawb wnaeth ymuno â ni a gwneud y diwrnod yn un arbennig!







## Merton Place

Yng nghanol heulwen, mwynhaodd preswylwyr Merton Place wledd drofannol gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

O rhythmau bywiog Pantastic, deuawd drymiau dur, i wledd o gacennau, byrbrydau a danteithfwyd trofannol, roedd yn wledd i'r synhwyrau.

Roedd yno rhythm, gwenau a thambwrinau. Am ddigwyddiad! Rydym yn falch bod y tywydd yn berffaith.

## Plas Telford

Cychwynnodd Plas Telford eu tymor yr haf gyda barbeciw bywiog, hoff ganeuon Abba a'n preswylwraig hyfryd Edna yn cloi'r cyfan trwy ganu Hen Wlad fy Nhadau - roedd digwyddiad haf Plas Telford yn dipyn o hit!





## Llys y Waun

Wrth lwc fe barhaodd tywydd yr haf yn ddigon hir i Lys y waun gynnal eu gwyl haf ym mis Medi! Bwriad y digwyddiad oedd dathlu diwedd yr haf a chodi arian at yr ardd synhwyraidd, a llwyddwyd i godi £780 anhygoel!

Fe wnaeth y preswylwyr, staff a gwahoddedigion fwynhau cymaint fel eu bod yn mynd i drefnu Gŵyl Nadolig, na allwn ni aros amdani yn barod! Diolch i bawb oedd yn bresennol ac a gyfrannodd, yn arbennig y gwahoddedigion arbennig - Marshal o Paw Patrol, Peppa Pig a'r ceffylau hyfryd oedd wedi gwisgo ar gyfer yr achlysur!



## Yr Wyddgrug

Trefnodd ein Swyddogion Tai ddigwyddiad diwedd haf - nôl i'r ysgol i'r preswylwyr yn ardal yr Wyddgrug. Ymunodd partneriaid â ni i gynnig cefnogaeth, gweithgareddau hwyliog, castell gwynt a phaentio wyneb i'r plant a daeth yr haul i'r golwg hefyd, a wnaeth y diwrnod yn fwy arbennig. Diolch i chi i gyd am ymuno â ni ar y diwrnod hwyliog yma!





## Tŷ Norfolk

Croesawodd Tŷ Norfolk yng Nghonwy arweinwyr cymunedol i'w ddiwrnod agored yn ystod yr haf, gan ddangos ei swyddogaeth allweddol fel hafan i oedolion sy'n wynebu digartrefedd. Gyda chefnogaeth 24 awr y dydd, mae'n cynnig lle diogel i ailadeiladu bywydau a meithrin cymuned ofalgar. Bu'r ymwelwyr yn sgwrsio gyda staff a phreswylwyr gan gael dealltwriaeth o effaith drawsnewidiol y gwasanaethau hyn sy'n gallu newid bywydau.

## Wrecsam

Daeth nifer dda iawn allan i ddigwyddiad cymunedol Wrecsam, fe wnaethom groesawu partneriaid, preswylwyr a chymdogion yn y gymuned. Aeth y thema Calan Gaeaf i lawr yn dda iawn ac oo...roedd y gwisgoedd yma'n drawiadol iawn! Diolch i bawb oedd yn bresennol yn ein parti ysbrydoledig!



ClwydAlyn | O gwmpas ein cymunedau

# Pen-blwydd ARBENNIG Iawn i Chi!

## Anrhydeddu ein Preswylwyr: Dathlu cerrig milltir a phen-blwyddi arbennig ar draws Ein Cymunedau

**Pen-blwydd hapus yn 90 i Barbara, un o breswylwyr Cae Glo. Roedd ei chymdogion eisiau dymuno pen-blwydd hapus iawn i Barbara a diolch iddi am bopeth y mae'n ei wneud i'r cynllun.**

Mae Barbara yn helpu i redeg y boreau coffi wythnosol, mae'n helpu gyda'r prydau min nos, mae'n drysorydd cymdeithas preswylwyr Cae Glo sydd newydd ei sefydlu ac mae hi bob amser yn gefnogol ac yn ymwneud â materion cymunedol. Mae Barbara yn aelod gwerthfawr o'r gymuned, ac roedd ei pharti pen-blwydd yn ffordd wych i ddathlu Barbara! Pen-blwydd Hapus Barbara a diolch i chi am bopeth yr ydych yn ei wneud!



**Ym mis Medi cynhaliwyd parti ym Merton Place i ddathlu pen-blwydd un o'n preswylwyr, Flo Bailey yn 100 oed.** Tra'r oeddem yn dathlu gyda chacen a bucks fizz cyrhaeddodd y postman gyda cherdyn arbennig gan y Brenin. Llawer dedwydd dro ar y dydd Flo.





**Dathlodd Nell ei phen-blwydd yng Ngorwel Newydd yn Tachwedd gyda phrynhawn yn llawn o fwyd, cacen hyfryd a chwarae ei hoff hobi...bingo.** Roedd yno ganwr hyd yn oed i roi adloniant iddi hi a'i gwahoddedigion. Mae'n swnio'n ddiwrnod gwych ac mae'r bwyd a'r cacennau'n edrych yn flasus iawn. Dymunwn lawer dedwydd dro i chi Nell!

**Rydym yn anfon dymuniadau pen-blwydd at Joyce, un o breswylwyr annwyl Llys y Waun, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 anhygoel ym mis Mehefin!** Mae cyrraedd y garreg filltir drawiadol hon yn ysbrydoliaeth i ni i gyd. Gan ddymuno llawer dedwydd dro ar y dydd ac iechyd da i chi!






**Cynhaliwyd dathliadau yn Llys Eleanor ar ddiwedd mis Mai i'r preswyliwr Frank oedd yn 90 oed.** Cafodd y preswylwyr i gyd amser braf iawn a theulu a ffrindiau Frank. Anfonodd mab Frank gerdyn diolch at y staff a chyfrannodd £100 at Gronfa preswylwyr Llys Eleanor i ddiolch i'r holl staff a roddodd eu hamser i aros ar ôl ar nos Wener i helpu.



Diolch am eich caredigrwydd a Frank, dymunwn lawer dedwydd dro ar y dydd i chi!

# Newidiadau Mawr yn Dechrau'n Fach:

## Trawsnewid Llys Heulog

### Sut y gwnaeth syniad un preswyliwr gychwyn glanhau cymunedol, cynyddu balchder, cysylltiadau ac ymdeimlad cryfach o gymuned.



**Yn Llys Heulog, mae ardal gymunedol lle'r oedd ysbwriel yn cael ei adael yn gyson wedi cael ei drawsnewid yn llwyr-diolch i benderfyniad un preswyliwr.**

Wrth deimlo'n rhwystredig am y llanastr parhaol a'r gwaith glanhau drud, penderfynodd y preswyliwr ymdrin â'r sefyllfa ei hun a dechrau tacluso'r ardal.

Ysbrydolodd hyn eraill yn y bloc i ymuno, gan greu ton o newid cadarnhaol.

Gyda'i gilydd, fe wnaeth y preswylwyr droi lle oedd yn cael ei hesgeuluso yn ardal groesawus i bawb ei mwynhau.

Wrth geisio gwella'r lle ymhellach, cysylltodd y preswyliwr â ClwydAlyn i gael cefnogaeth a gwnaed cais llwyddiannus trwy Gronfa'r Llywydd. Fe wnaeth hyn adael iddyn nhw brynu eitemau i wella'r gerddi cymunedol, gan wneud y lle hyd yn oed yn fwy pleserus i bawb.

Mae'r effaith wedi bod yn anhygoel. Mae'r hyn oedd unwaith yn destun rhwystredigaeth yn awr yn ganolfan i weithgaredd cymdeithasol gan ddwyn y cymdogion yn nes at ei gilydd. Mae pobl oedd prin yn cydnabod ei gilydd cynt yn awr yn stopio i sgwrsio, treulio amser gyda'i gilydd tu allan ac yn rhannu ymdeimlad cryfach o gymuned.

Fel y dywedodd un preswyliwr:

***"Mae wedi creu ymdeimlad gwirioneddol o gymuned. Fe wnaeth pawb weithio gyda'i gilydd, dod i adnabod ei gilydd ac erbyn hyn rydym yn mwynhau'r ardal gyda'n gilydd."***

Canmoliaeth anferth i breswylwyr Llys Heulog- mae eich ymdrechion yn enghraifft ddisglair o sut y gall gweithredoedd bach arwain at newidiadau mawr a chreu cymuned gryfach, hapusach!

# Cymdeithas Preswylwyr Newydd yng Nghae Glo!

### Cae Glo yn ffynnu diolch i ymdrechion y gymuned a chyllid Loteri



**Mae gan Cae Glo yn Wrecsam ardd gymunedol wedi ei haddasu diolch i David Perkins, un o'r preswylwyr ers 2017 ac aelod o Bwyllgor Preswylwyr ClwydAlyn.** Dywedodd David, "Fe gychwynnodd rai misoedd yn ôl pan wnaeth Laura awgrymu ffurfio Cymdeithas Preswylwyr ac ymgeisio am arian. Ar ôl ychwanegu planhigion i fywiogi'r ardal, fe wnaethom gais i Gronfa'r Loteri Fawr a dyfarnwyd £874 i ni ddatblygu'r gerddi."

Fe wnaeth y tirlunwyr lleol, Sherratts, helpu trwy balu'r ardd ac ychwanegu pridd ffres.Yna aeth y preswylwyr ati i hau blodau gwyllt a gwella yr ardal o gwmpas y gazebo.

Canmolodd David ymdrechion Barbara Cranwell, y Trysorydd 90 oed, a'i ffrind agos Anne Waters, sy'n trefnu digwyddiadau'n gyson. Mae'r ysgrifennydd Susan Waters hefyd yn cyfrannu'n helaeth at y gymuned.

"Roedd yr ardd yn ddiflas cynt, ond erbyn hyn mae'n fywiog a chroesawus. Gall preswylwyr fwynhau'r awyr agored, ac mae ymwelwyr yn cael eu denu i symud yma," dywedodd David.

# Ein Datblygiadau

# – Y Diweddaraf am y cynnydd

Bydd ein rhaglen ddatblygu yn darparu 1,500 o gartrefi newydd yng Ngogledd Cymru erbyn 2025 trwy fuddsoddiad o £250 miliwn, gan ddod â chyfanswm y nifer o dai yr ydym yn berchen arnyn nhw ac yn eu rheoli i dros 7,500.

**Dyma'r diweddaraf am sut y mae pethau'n mynd ar rai o'n datblygiadau:**

## CYNLLUNIAU WEDI EU CWBLHAU

- **Brynsiencyn, Ynys Môn →**
  Y 12 cartref i gyd wedi eu cwblhau, a'r preswylwyr wedi symud yno.
- **Melin/Mart Y Fali, Ynys Môn**
  Y 55 cartref i gyd wedi eu cwblhau, a'r preswylwyr wedi symud yno.
- **Stryd Edward Henry, Y Rhyl**
  Y 13 cartref i gyd wedi eu cwblhau, a'r preswylwyr wedi symud yno.

## CARTREFI FYDD WEDI EU GORFFEN ERBYN GWANWYN 2025

- **Tŷ Nos, Wrecsam**
  Bydd yr 19 cartref wedi eu cwblhau erbyn gwanwyn 2025.
- **Northern Gateway, Sir y Fflint**
  Bydd yr 100 cartref wedi eu cwblhau erbyn gwanwyn 2025.
- **Mynydd Isa, Sir y Fflint**
  Bydd cam cyntaf y datblygiad wedi ei gwblhau gyda rhai preswylwyr yn symud yno erbyn gwanwyn 2025.
- **Neuadd Maldwyn, Powys – Cynllun byw'n annibynnol ↓**
  Bydd y 66 fflat wedi eu cwblhau yn ystod Gwanwyn 2025





**Rydym wedi croesawu 80 o breswylwyr i'w cartrefi newydd yn ddiweddar.**



## DATBLYGIADAU SY'N DECHRAU AR Y SAFLEOEDD

- **Cegidfa, Y Trallwng ↑**
  Datblygiad â 28 o gartrefi.
- **Rhoslan, Ynys Môn**
  Datblygiad ag 13 o gartrefi.
- **Craig y Don, Benllech, Ynys Môn**
  Datblygiad ag 17 o gartrefi.
- **Cae Bothan, Caergybi, Ynys Môn**
  Datblygiad â 54 o gartrefi.
- **Stryd Well's Bwcle, Sir y Fflint**
  Datblygiad â 155 o gartrefi.
- **Pentref Pwyliaid Penrhos**
  Datblygiad â 42 o gartrefi, (cam 1).

# Preswylwyr yn symud i'w tai

Llongyfarchiadau i'n preswylwyr a symudodd i'w cartrefi newydd ym Mrynsiencyn ar Ynys Môn a Mart y Fali ar Ynys Môn.


### Maes y Felin (Mart y Fali gynt) yn Ynys Môn

Allai ein preswylwyr ddim bod yn hapusach wrth symud i'w cartrefi eco newydd ym Mart y Fali, Ynys Môn sy'n cael ei alw yn Maes y Felin erbyn hyn! Datblygiad yw hwn gyda 55 o gartrefi newydd, effeithlon o ran ynni a adeiladwyd gan Williams Homes ar ran ClwydAlyn ac mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru.

Roedd Catrin Williams a'i merch bum mlwydd oed yn byw yng nghartref ei thad cynt tra'r oeddent ar restr aros am gartref. Dywedodd: ***"Rwy'n edrych ymlaen gymaint at gael cychwyn ar y bennod newydd yma, a dim ond pum munud o gerdded i ffwrdd ydi ysgol fy merch hefyd."*** ↓



Dywedodd Kelly Davies-Williams, mam i Ivy a Bodie : ***"Rydym wedi cyffroi cymaint o gael symud i mewn; rwyf wrth fy modd hefo dyluniad a phatrwm y lle. "Bydd byw yma yn gwneud gwahaniaeth mawr i ni o ran arbed ar filiau ynni, gan ein bod ni cynt yn talu £320 y mis am drydan a nwy."***



### Stad Bryn Glas, Brynsiencyn, Ynys Môn

Roeddem yn ddigon ffodus i ffilmio ein preswylwyr yn symud i Frynsiencyn ar Ynys Môn. Mae'r datblygiad £2.9 miliwn hwn yn darparu 12 o gartrefi newydd, effeithlon o ran ynni a adeiladwyd gan DU Construction ar ran ClwydAlyn ac mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru.

Ymhlith y preswylwyr roedd Alicia, a ddywedodd: ***"Mae [Brynsiencyn wedi] cael effaith anferth ar fy mywyd, dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i ni. Dim ond 18 oed wyf fi ac rwyf wedi cael merch fach ac rwyf mor falch bod gennym gartref braf i'w magu hi ynddo. Rwyf wrth fy modd yma ac mae holl staff ClwydAlyn wedi bod yn wych hefo ni."*** ↑

Ychwanegodd preswyliwr arall, Hollie: ***"Mae'r staff wedi bod yn groesawus a chyfeillgar, maen nhw wedi gwneud i mi deimlo bod croeso gwirioneddol i fod yn un o'u tenantiaid. Mae'n fywyd newydd i [fy mhlentyn], mae'n gartref bach iddi ac yn lle i'w alw yn gartref hefyd."***

Yn olaf, dywedodd Chloe: ***"Mae'n teimlo'n eithriadol o gyffrous. Rwy'n teimlo'n ddiogel yn dod yma. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy nghysuro. Rwy'n teimlo fel person normal achos mae popeth yn fy nghartref yn hygyrch i mi. Dyma'r cartref yr oeddwn wedi ei addo i fy mhlant o hyd; diogel, cynnes, hygyrch."***

Am ragor o wybodaeth am effaith trawsnewidiol y cartrefi hyn a chlywed profiadau'r preswylwyr, gallwch wylio fideo 'Symud i Frynsiencyn' Tai ClwydAlyn.



# AWGRYMIADAU UWCHGYLCHU A DIY

gyda Laura McKibbin

**Ym mhob rhifyn o Calon y Cartref, rwy'n hoffi cynnwys prosiect uwchgylchu. Gan ein bod yn aml yn chwilio am ffyrdd i arbed arian, gall uwchgylchu a phrynu yn ail law gynnig arbedion anferth. Mae llanastr un person yn drysor i un arall!**

Os ydych wedi darllen fy awgrymiadau uwchgylchu o'r blaen, fe fyddwch yn gwybod fy mod yn hoff iawn o Facebook Marketplace, yn chwilio am fargen o hyd ac rwy'n teimlo bod yr eitem yma yn union hynny. Fe wnes i ddod o hyd i'r fasged dillad budron bambŵ hon am ddim, ie am ddim! Fe wnes i fynd i'w nôl heb wybod sut y byddai'n cael ei defnyddio.

Roedd arnaf angen bwrdd bach ar gyfer y cyntedd ac roeddwn wedi gweld dylanwadwyr yn defnyddio hen dun paent a lapio bambŵ o'i gwmpas, felly mi wnes i roi tro ar hyn ond gyda stôl. Fe allwch weld sut gwnes i greu'r bwrdd bach trwy edrych ar y broses ar y dde. →



Gydag ychydig o'r bambŵ oedd yn weddill, fe wnes ei dorri a defnyddio glud i'w ychwanegu at fy mwrdd gwisgo.

Mae'r cyffyrddiad bach yma wedi gwneud gwahaniaeth mawr gan gostio ychydig iawn a chymryd ychydig o amser. WOW wow wow! Beth allai ddweud... efallai un o'r prosiectau uwchgylchu rhataf hyd yn hyn. Gobeithio y byddwch yn hoffi'r prosiect cymaint ag yr wyf fi.



## Ychydig gamau i ddangos sut y gwnes i lwyddo i wneud hyn:



### CAM 1

Gofalwch bod gennych yr holl offer y bydd arnoch eu hangen i gwblhau eich prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys stribed o fambŵ, gwrthrych canolog, gwn glud neu lud cryf, papur tywod ac offeryn torri.



### CAM 2

Torrwch eich darn o fambw i'r maint gofynnol. Defnyddiais siswrn da i wneud hyn, ac fe wnes ei dorri ychydig yn fwy na'r angen er mwyn gallu ei addasu.



### CAM 3

Gludwch y stribed bambŵ ar y darn o'ch dewis. Fe ddefnyddiais i hen stôl, ond fe allech hefyd ddefnyddio bin, tun paent, potyn planhigyn neu unrhyw wrthrych addas sydd gennych o gwmpas.



### CAM 4

Fe ddefnyddiais i wn glud ond fe allwch chi ddefnyddio glud cryf neu gefndir sy'n gludo ei hun. Pan fydd y glud yn hollol sych, gallwch orffen pen y bwrdd. Fe wnes i drin pen y stôl gyda phapur tywod i gadw golwg hynafol, ond mae pobl eraill wedi defnyddio byrddau torri crwn neu gylchoedd pren.

Fe wnaeth un o'n preswylwyr o Sir y Fflint rannu prosiect uwchgylchu diweddar gyda ni, darn gwych o ddodrefn wedi ei adfer. Mae'r gadair wreiddiol tua 80 mlynedd oed ac mae wedi ei gwneud yn dda iawn ond ei bod angen ei diweddaru ychydig. Fe wnaeth ein preswyliwr rannu'r hyn y bydd arnoch ei angen a sut i wneud y gwaith.

**Yr offer a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud y prosiect hwn;**

- Offeryn papur tywod trydanol (gallwch ddefnyddio papur tywod ac amynedd!).
- "Scotch pad" sy'n gwneud yr arwyneb yn llyfn iawn.
- Cwyr.
- Paent o'ch dewis - Prynwyd can o chwistrell du matt yn costio £2.99.
- Defnydd ar gyfer y sedd.





# Ychydig gamau am sut y gwnaed hyn:



**CAM 1**

Tynnwch y sedd o'r gadair.



**CAM 2**

Rhwbiwch y gadair â phapur tywod i lawr y gadair i'w baratoi ar gyfer paentio.



**CAM 3**

Chwistrellwch neu baentiwch y gadair. Roedd dwy got ar y gadair hon ac fe'i gadawyd i sychu dros nos. Roedd patrwm canol y gadair yn ddeniadol, felly cafodd ei dapio i osgoi gorchwistrellu a'i adael heb ei baentio i sefyll allan.



**CAM 4**

Rhowch orchudd cwyr amddiffynnol ar y gadair i ychwanegu sglein braf ac amddiffyn y gorffeniad.



**CAM 5**

Adfer y clustog sedd gyda ffabrig oedd gan y preswylydd gartref yn barod. Mae deunyddiau da ar gyfer adfer clustogau sedd yn cynnwys hen orchuddion, llenni, neu orchuddion clustog.

**Prosiect uwchgylchu gwych, yn costio llai na £5 am ddeunyddiau.**

Derbyniodd ein preswyliwr daleb £50 am rannu'r prosiect uwchgylchu. Os ydych yn mwynhau uwchgylchu cymaint ag yr wyf fi, rhannwch eich prosiect â mi! Anfonwch eich prosiect uwchgylchu at **InfluenceUs@ clwydalyn.co.uk** neu gallwch eu hanfon trwy WhatsApp at **07880431004** - Fe allech chi ennill talebau siopa £50!




# Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau ClwydAlyn

## Dathlu Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau: Cadw Eich Cartref yn Ddiogel

**Y mis Hydref hwn, fe wnaethom ddathlu Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau!**

Mae ein tîm Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau wedi ymroi i sicrhau bod eich cartref yn lle diogel i chi fyw ynddo. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o'n cenhadaeth wrth ddarparu mynediad at dai o safon ragorol, felly rydym wedi bod yn rhannu llawer o wybodaeth ddefnyddiol a phwysig am rai o'r pynciau y mae ein tîm yn ymdrin â nhw. Rydym wedi creu fideos, ffeithluniau a hyd yn oed llyfr diogelwch tân i blant - darllenwch ymlaen i ddysgu rhagor am y Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau, a'r hyn yr ydym yn ei wneud i'ch cadw yn ddiogel.

### Diogelwch Trydanol

Fe wnaethom rannu cyngor defnyddiol ac awgrymiadau yn canolbwyntio ar ddiogelwch trydanol. Mae trydan yn goleuo eich bywyd, ond mae'n bwysig i'ch offer trydanol gael eu gwirio yn gyson i sicrhau eu bod yn ddiogel. Gan mai eich diogelwch yw ein blaenoriaeth, rydym yn sicrhau ein bod yn cynnal gwiriad diogelwch trydanol o'ch eiddo bob 5 mlynedd o leiaf.

Rhwng ein hymweliadau, mae'n bwysig eich bod yn gwybod sut i gyflawni eich gwiriadau syml eich hunan a gwybod beth i'w wneud a pheidio ei wneud o ran diogelwch trydanol. Er enghraifft, rydym yn gwybod y gall gwifrau ymestyn fod yn ddefnyddiol, ond mae'n bwysig cofio na ddylai socedi gael eu gorlwytho, gan y gall hyn arwain at dân trydanol.






## Diogelwch Tân

Mae bod yn gyfrifol o gwmpas tân yn rhan bwysig o gadw eich cartref yn ddiogel. Rhai o achosion mwyaf cyffredin tanau yw:

- Coginio
- Ysmygu
- Diffygion trydanol
- Canhwyllau

Un teclyn pwysig i gadw eich cartref yn ddiogel yw synwyryddion mwg. Dylech wirio'r rhain o leiaf unwaith y mis i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn, ac os nad ydyn nhw, cysylltwch â ni! Mae systemau chwistrellu yn rhai o'n cartrefi hefyd.

Os oes un o'r rhain yn eich cartref, mae angen iddyn nhw gael eu profi gan un o'n peirianwyr i sicrhau y byddan nhw'n gweithio os bydd tân. Byddwn yn cysylltu i drefnu apwyntiad, felly byddwch yn barod i gydweithio i brofi'r rhain pan fyddwn yn cysylltu â chi os gwelwch yn dda.




## Asbestos yn y Cartref

Gellir dod o hyd i asbestos mewn cartrefi hŷn a adeiladwyd cyn y flwyddyn 2000 ac mae'n hollol ddiniwed os na amharir arno, ond os bydd yn cael ei amharu gall fod yn wirioneddol niweidiol i'ch iechyd. Mae'n bwysig i chi wybod ble y gallwch weld asbestos, y gellir ei weld amlaf ar:

- Nenfydau gweadog
- Teiliau llawr finyl
- Hen sisternau toiled
- Mathau o inswleiddiad
- Deunyddiau adeiladu eraill

Os ydych yn meddwl bod ymyrryd wedi bod ar asbestos yn eich cartref, gadewch yr eiddo a galw ein tîm cyn gynted ag y gallwch er mwyn i ni ymchwilio i'r mater a'i ddatrys.

## Diogelwch Nwy

Mae gofalu bod eich bwyler yn gweithio'n iawn yn bwysig yn neilltuol yn y misoedd oerach pan fydd cynhesrwydd a bod yn glyd yn allweddol! Bydd ein peirianwyr arbenigol yn ymweld â'ch cartref i sicrhau bod eich bwyler yn ddiogel ac effeithlon yn ogystal â chwilio am ollyngiadau a gwenwyn carbon monocsid (CO). Gelwir CO yn 'lladdwr tawel' oherwydd na allwch ei weld, ei arogli na'i flasu, gallai gwybod am y symptomau achub eich bywyd.




## Legionella

Fe wnaethom hefyd roi cyngor defnyddiol am legionella, afiechyd sy'n cael ei ddal trwy anadlu dafnau bychan o ddŵr sy'n cynnwys y bacteria. Gall y risg o legionella gael ei gynyddu gan:




- Ddŵr yn cael ei storio a/neu ei ailgylchredeg
- Mannau arllwys dŵr yn cael eu defnyddio yn anaml
- Rhwd, slwj a chalchgen wedi crynhoi
- Pennau cawodydd, gollyngwyr dŵr a baddonau sba

Gan mai ein prif flaenoriaeth yw eich cadw yn ddiogel, dyma rai awgrymiadau i osgoi'r risg o legionella:

- Rhedwch dapiau a chawodydd am 5-10 munud unwaith y mis
- Glanhewch a diheintio pennau cawodydd yn gyson
- Rhowch wybod i ni os nad yw eich dŵr poeth yn cynhesu'n iawn

**A dyna ben ar ein Mis Cydymffurfio a Diogelwch Adeiladau! Os ydych eisiau cael gwybod rhagor o awgrymiadau defnyddiol a chyngor, ewch i'n gwefan lle gallwch chi wylio fideos a chael hyd yn oed fwy o wybodaeth am sut i gadw eich cartref yn ddiogel.**

# Trwsio DIY

Yn ôl ym Mehefin 2022 fe wnaethom sefydlu Trwsio DIY. Cynllun yw Trwsio DIY i helpu preswylwyr i allu gwneud eu mân waith trwsio eu hunain, yn eu hamser eu hunain. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i breswylwyr dros eu cartrefi, ac yn ei dro mae'n ein helpu ni i gael at breswylwyr sydd angen cymorth yn gyflymach.

Daeth y syniad gwreiddiol gan breswyliwr ar ein Pwyllgor Preswylwyr i helpu i leihau amseroedd aros. Fe wnaethom dreialu'r syniad hwn gyda gwirfoddolwyr o'n grŵp preswylwyr Dylanwadwch i'n helpu i gael adborth gan breswylwyr:-

> Adborth gan drigolion: –
> **"Mae'n arbed arian ac amser, gwych, syniad da."**
> **– "Gwasanaeth da. Yn arbed aros gartref am beirianwyr."**
> **– "Gwasanaeth rhagorol, gofal cwsmeriaid o'r radd flaenaf, hapus iawn wir."**
> **– "Cynllun rhagorol. Arbed amser yn aros."**

## Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyfnewid paneli ffens
- Cyfnewid postyn giât
- Newid y gliced ar giât
- Newid cetyn giât
- Cyfnewid teils rhydd
- Ail growtio o amgylch teils yn y gawod
- Trwsio handlen ffenestr PVC
- Paentio ystafelloedd
- Newid y pwysedd mewn systemau gwresogi a dŵr poeth
- Trin darnau bach o lwydni smotyn du

## Mae manteision Trwsio DIY yn cynnwys:

- Lleihau'r amser aros i gael trwsio
- Galluogi preswylwyr i gwblhau gwaith trwsio pan fydd yn fwyaf addas iddyn nhw
- Dim angen i breswylwyr gymryd amser o'r gwaith ar gyfer apwyntiadau trwsio
- Gallwch guro'r ciw!
- Rhyddhau'r tîm i gyrraedd at y preswylwyr sydd angen mwy o help ynghynt
- Datblygu sgiliau DIY
- Eich galluogi i ddewis eich paent eich hun



# Y Broses Drwsio DIY

## A oeddech yn gwybod, os oes gennych fân waith trwsio a'ch bod yn gallu ei drwsio eich hun, y gallwn ni ddarparu'r deunuddiau?

Os oes gennych waith trwsio bach ac y byddech yn hoffi cael gwybod rhagor, cysylltwch â ni i drafod.
E-bost: **help@clwydalyn.co.uk** neu ffoniwch **0800 183 5757**.

### Byddwn ni yn gofyn

Byddwn ni yn gofyn beth yw'r broblem ac yn ceisio ei datrys dros y ffôn. Os na fydd cymorth dros y ffôn yn llwyddiannus a'i bod yn anodd trefnu apwyntiad gyda'r tîm Cynnal a Chadw, yna fe fyddwn yn gofyn a hoffech chi wneud y gwaith eich hun?

### Na

Os byddwch chi yn dweud 'na' byddwn yn creu 'archeb gwaith' a byddwch yn cael eich ychwanegu at amserlen waith y Tîm Cynnal a Chadw.

### Hoffwn

Os byddwch chi yn dweud 'hoffwn' byddwn yn creu 'archeb gwaith eich hun' i chi gwblhau'r gwaith.

### Bydd eich deunyddiau'n cael eu harchebu

Bydd arnom angen gwybod pa ddeunyddiau fydd arnoch eu hangen, ac fe allwn ofyn i chi am luniau o'r gwaith trwsio.

Byddwn wedyn yn archebu'r deunyddiau y gwnaethoch ofyn amdanynt ac yn cytuno hefo chi os byddwch chi'n eu casglu neu y byddech yn hoffi iddynt gael eu dosbarthu i'ch cyfeiriad chi.

### Deunyddiau wedi cyrraedd

Byddwch naill ai'n casglu'r deunyddiau neu byddant yn cael eu dosbarthu ar y dyddiad y cytunwyd arno, a byddwch yn gwneud y dasg eich hun.

### Ewch i drwsio

Hwre! Rŵan bod y deunyddiau wedi cyrraedd gallwch wneud y gwaith trwsio yn eich amser eich hun.

### Llongyfarchiadau!

Rydych wedi gwneud y gwaith trwsio yn llwyddiannus eich hun.
Rydych wedi curo'r ciw ac arbed amser.

# Tamprwydd a llwydni yn eich cartref - sut i leihau'r risg

## Rhowch adroddiad - cysylltwch

Os byddwch yn sylwi ar unrhyw beth sydd angen ei drwsio neu eich bod yn cael trafferth gyda thamprwydd yn eich cartref yna rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

**help@clwydalyn.co.uk**
Anfonwch e-bost at y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid gyda'r math o damprwydd yr ydych yn poeni amdano, ynghyd â lluniau (os yn bosibl), eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt.

**www.myclwydalyn.co.uk**
Defnyddio ein Porth Preswylwyr FyClwydAlyn

**0800 183 5757**
Ffonio'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid rhwng 8.00am a 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener




### 1 Ffenestri


- Cadw eich fentiau awyru ar agor ar eich ffenestri.
- Agor eich ffenestri ychydig yn gyson i awyru eich cartref.
- Yn ddelfrydol dylai llenni ddod i ben ychydig uwch ben sil y ffenestr a pheidio â chyffwrdd y gwydr, a all arwain at lwydni.
- Ceisiwch osgoi gorchuddio rheiddiaduron gyda llenni rhy hir, gan y gall hyn atal gwres rhag chwalu i'r ystafell.

### 2 Y Gegin

- Wrth goginio neu olchi dillad, cadwch ddrws y gegin ar gau ac agor ffenestr.
- Cadwch gaeadau ar sosbenni a defnyddio ffan i anfon yr aer gwlyb allan. (Os oes humidistat ar eich ffan, bydd yn gweithio'n gynt yn awtomatig pan fydd y gwlybaniaeth yn cynyddu.)

## 3 Waliau Allanol

- Gofalwch nad oes bagiau bin neu wrthrychau eraill yn pwyso ar waliau allanol, gan eu bod yn atal awyru a heulwen rhag cynhesu'r waliau.




## 4 Dodrefn

- Gadewch fwlch rhwng eich dodrefn a waliau allanol.
- Osgowch osod dodrefn yn uniongyrchol o flaen rheiddiaduron, gan ei fod yn atal gwres rhag cylchredeg.
- Peidiwch â rhoi matresi yn uniongyrchol ar y llawr i osgoi i bocedi o aer llonydd, llaith ffurfio.

## 5 Sychu Dillad

- Osgowch sychu dillad yn uniongyrchol ar reiddiaduron—mae hors dillad yn fwy effeithlon.
- Sychwch eich dillad mewn ystafell sydd wedi ei hawyru'n dda i helpu i leihau anwedd.
- Os ydych yn defnyddio sychwr dillad, gwnewch yn siŵr ei fod wedi ei awyru'n iawn fel bod yr aer gwlyb yn cael ei anfon allan.

## 6 Gwresogi

- Mae cadw eich cartref yn gynnes yn lleihau'r anwedd sy'n ffurfio ar arwynebau.
- Os ydych yn bryderus am gostau gwresogi neu fod arnoch angen cymorth gyda biliau ynni, cysylltwch â'ch Swyddog Cefnogi Tenantiaeth

## 7 Ystafell Ymolchi

- Wrth gael cawod, agorwch ffenestr a chau'r drws i atal y lleithder rhag lledaenu.
- Rhowch y ffan awyru ymlaen, os oes un ar gael. (Bydd ffaniau gyda humidistat yn gweithio'n gynt yn awtomatig pan fydd y lleithder yn cynyddu.)

# CAN COOK | WELL-FED

Mae Bwydo'n Dda yn rhoi prydau iach, fforddiadwy a chytbwys wedi eu teilwrio i'ch anghenion heb gyfaddawdu o ran y blas. Dewiswch o blith prydau wedi eu coginio yn barod, prydau parod i'r popty araf, neu gynhwysion ffres i'w coginio eich hun. Gyda dewisiadau i bawb, gwiriwch eu gwasanaethau heddiw!

## Lansio MealLocker!

Newyddion Cyffrous! Mae MealLocker wedi cael ei lansio ar 1 Tachwedd! Mae MealLocker yn wasanaeth sy'n newid pethau yn sylweddol gan gynnig loceri bwyd sy'n oergelloedd tu allan, gan roi mynediad cyfleus at becynnau rysáit Heb Ddim Bwyd Wedi ei Brosesu'n Eithafol a chynhwysion sylfaenol. Yn syml, archebwch eich pecynnau rysáit ymlaen llaw, a byddant yn barod i'w casglu mewn ychydig ddyddiau- yn union pan fydd arnoch eu hangen.

### Pam dewis MealLocker?

- Cynllunio Prydau Diymdrech: Cael gwared â'r straen o benderfynu beth i'w goginio i'ch teulu.
- Popeth mewn un lle: Cewch yr holl gynhwysion sydd arnoch eu hangen, a rysetiau hawdd eu dilyn.
- Casglu Cyfleus 24 awr y dydd bob dydd: Ewch i nôl eich archeb ar unrhyw amser sy'n addas i'ch ffordd o fyw.
- Lleihau bwyd sy'n cael ei wastraffu: Prynwch yr hyn sydd arnoch ei angen yn unig, gan helpu i leihau gwastraff.
- Gwnewch argraff ar eich teulu: Paratowch brydau blasus, maethlon y bydd pawb yn eu mwynhau.
- Cynhwysion o safon uchel: Mwynhewch brydau iach heb gynhwysion wedi eu gor-brosesu i roi maeth i'ch teulu.

**Byddwch yn barod i ddyrchafu profiad bwyta eich teulu gyda MealLocker!**



# Siop Symudol

Mae'r gwasanaeth Siop Symudol hefyd ar gael yn Sir y Fflint erbyn hyn! Mae'r gwasanaeth gwych yma yn dod â phrydau ffres, eitemau sylfaenol, hanfodion cwpwrdd bwyd a mwy at eich trothwy.

Gallwch hyd yn oed roi archebion am brydau blasus, newydd eu paratoi a'u casglu yn ystod ymweliad nesaf y siop.

Mae'n ffordd gyfleus o brynu eitemau pob dydd a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer prydau, gan gefnogi eich cymuned leol yr un pryd. Cadwch lygad am y Siop Symudol yn eich ardal a manteisio ar y gwasanaeth gwych yma.

Edrychwch ar @CanCookWellFed ar Facebook am yr amserlen fwyaf cyfredol!




# Canolfannau Prydau

Mae'r gwasanaeth Canolfan Prydau ar gael erbyn hyn mewn nifer o gymunedau! Mae'n lle gwych i archebu prydau newydd eu paratoi a mwynhau'r cyfle i gymdeithasu ag eraill mewn awyrgylch cyfeillgar, croesawus. Rhowch eich archeb fwyd i mewn yn y ganolfan a bydd yn barod i'w gasglu'r wythnos ddilynol. Yn well gennych gyfleustra archebu o gartref? Gallwch hefyd roi eich archeb ar-lein yn www.wellfedmeals.co.uk.
Mae'n gyfle gwych i fwynhau bwyd da a chysylltu â'ch cymuned leol.

Gallwch weld rhestr o'n Canolfannau Prydau yma - https:// www.cancook.co.uk/well-fed-meal-hubs/

Er mwyn dysgu rhagor ewch i https://www.cancook.co.uk/ neu ffoniwch 01244819543.

Facebook: @CanCookWellFed
Instagram: @cancookwellfed

# Prydau Heb Fwyd Wedi ei Or-brosesu

Rydym yn falch o gael dweud wrthych am newid anhygoel sy'n digwydd yn Bwydo'n Dda. Maen nhw wedi gwneud ymrwymiad dewr i iechyd trwy gael gwared ar yr holl gynhwysion wedi eu gor-brosesu o'u prydau! Mae hyn yn golygu y gallwch chi yn awr fwynhau rysetiau ffres, iach gyda dim ond y cynhwysion gorau, naturiol.
Cred Bwydo'n Dda bod bwyd iawn o bwys, ac mae eu dewis newydd o brydau yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw. Os ydych yn chwilio am brydau  nos maethlon i'r teulu neu ddewisiadau cyfleus ar gyfer dyddiau prysur, fe welwch chi brydau blasus heb ychwanegolion diangen—dim ond cynhwysion pur, blasus. Os ydych yn chwilio am ddewisiadau iach, llawn blas y gallwch deimlo'n dda amdanyn nhw, rydym yn argymell eich bod yn rhoi cynnig ar y prydau newydd gwell gan Bwydo'n Dda. Gallwch siopa yn awr trwy eu Siop Symudol, Canolfannau Prydau neu MealLockers.

## Rysáit Nadolig
## Crymbl Afal (Digon i 4)

**Cynhwysion**

| | |
|---|---|
| 120g | menyn |
| 240g | siwgr (wedi ei rannu yn ddau ran 120g) |
| 240g | blawd plaen |
| 300g | Afalau Bramley, wedi eu pilio a'u torri |
| 300g | afalau bwyta wedi eu pilio a'u torri |
| 4 llwy | fwrdd o ddŵr |

**Cyfarwyddiadau**

**1.** Cynheswch y popty i 180°C.
**2.** Rhwbiwch y menyn, blawd a 120g o siwgr gyda'i gilydd nes fel briwsion bara (ychwanegwch ddŵr os bydd rhy sych).
**3.** Coginiwch yr afalau mewn sosban gyda 120g o siwgr a dŵr dros wres uchel nes byddant yn feddal ond ddim yn purée.
**4.** Tywalltwch yr afalau i fowlen goginio a gwasgaru'r crymbl ar eu pen.
**5.** Coginiwch am 30 munud nes y byddant yn euraidd.



**Gweinwch gyda chwstard, hufen neu hufen ia. Mwynhewch!**

# NEWIDIADAU I'R TALIAD TANWYDD GAEAF I BENSIYNWYR

Newidiadau i'r Taliad Tanwydd Gaeaf: Y diweddariadau allweddol a'r dewisiadau cymorth i bensiynwyr y mae'r rheolau cymhwyster newydd yn effeithio arnyn nhw

**Cyflwynwyd y Taliad Tanwydd Gaeaf am y tro cyntaf yn 1997. Mae'r swm wedi amrywio, ond yn y rhan fwyaf o flynyddoedd mae'r swm wedi bod yn £200 i aelwydydd lle mae'r person hynaf dan 80 a £300 i aelwydydd gyda rhywun 80 oed neu hŷn.**

Ond, o 16 Medi 2024, nid oes gan aelwydydd yng Nghymru a Lloegr hawl i'r Taliad Tanwydd Gaeaf oni bai eu bod yn derbyn Credyd Pensiwn neu rai budd-daliadau gyda phrawf modd eraill.

Derbyniodd 10.8 miliwn o bensiynwyr ar 7.6 miliwn o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr y Taliad Tanwydd Gaeaf ar gyfer gaeaf 2023/2024. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn amcangyfrif y bydd 1.5 miliwn o unigolion ar 1.3 miliwn o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr yn derbyn taliad ar gyfer gaeaf 2024/2025, felly bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar nifer sylweddol o bobl.

Dylai pensiynwyr y mae eu hincwm wythnosol yn is na £218.15 i berson sengl neu £332.95 i gwpl wirio a allan nhw fod yn gymwys am Gredyd Pensiwn sy'n werth £3,900 y flwyddyn ar gyfartaledd ac sydd hefyd yn gwarantu hawl i'r Taliad Tanwydd Gaeaf.

**Gan y gall unrhyw hawliad gael ei ddyddio yn ôl 3 mis, cyn belled â'ch bod yn ymgeisio erbyn 16 Rhagfyr 2024 ac yn cael Credyd Pensiwn, byddwch yn cael y Taliad Tanwydd Gaeaf hefyd.**

Gall Janice a Joanne, ein Swyddogion Hawliau Lles a Chyngor Ariannol, eich helpu i wirio eich hawl. Ffoniwch ein Canolfan Gyswllt ar 0800 183 5757 a byddant yn trosglwyddo eich manylion ymlaen iddyn nhw. Fel arall, gallwch wirio eich hawliau ac ymgeisio gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y dudalen nesaf.

Ask Bill

Os ydych yn cael trafferth gyda'ch biliau ac am weld pa gymorth sydd ar gael, mae Ask Bill yn wefan sy'n cynnig help diduedd am ddim i'r rhai all fod ei angen.

**https://www.askbill.org.uk/**

UK Government

# A ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu yn adnabod rhywun sydd?

**Mae Credyd Pensiwn** yn ychwanegu at incwm pensiwn a gall helpu gyda chostau byw o ddydd i ddydd.

Os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai eich bod yn gymwys i hawlio Credyd Pensiwn, hyd yn oed os ydych yn berchen ar eich cartref neu fod gennych gynilon. Gall pobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn hefyd allu cael:

- Y Taliad Tanwydd Gaeaf* a help arall gyda chostau gwresogi
- Help gyda'ch rhent a'r Dreth Gyngor
- Trwydded deledu am ddim i'r rhai 75 oed neu hŷn
- Help gyda chostau gwasanaethau GIG, fel triniaeth ddeintyddol y GIG, sbectolau a chostau teithio ar gyfer apwyntiadau ysbyty

**SGANIWCH I DDYSGU RHAGOR**

Gallech fod yn gymwys ar gyfer Credyd Pensiwn os yw eich incwm wythnosol dan **£218.15** neu, os oes gennych bartner yn byw gyda chi, **£332.95.** Gall lefel yr incwm sy'n gymwys fod yn uwch dan rai amgylchiadau.

Gwiriwch a ydych yn gymwys yn **gov.uk/pension-credit** neu trwy ffonio **0800 99 1234**

Mae meini prawf cymhwyster yn berthnasol
*neu'r cyfatebol yn yr Alban.

# DIWRNOD YM MYWYD...



## **Tom Boome**, Pennaeth Technegol, Blaengaredd a Hinsawdd

### Gyrru blaengaredd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd: Trawsnewid cartrefi a lleihau effaith amgylcheddol

**Helo fi yw Tom Boome a fi yw Pennaeth Technegol, Blaengaredd a Hinsawdd. Roedd fy astudiaethau a phrofiad gwaith blaenorol mewn pensaernïaeth dylunio ac adeiladu. Rwyf wedi gweithio mewn practis pensaernïol preifat, i awdurdod lleol a rheoli prosiectau.**

Cychwynnais fy swydd yn ClwydAlyn yn gynnar yn 2021. Roedd wedi ei chreu fel swydd newydd yn yr adran ddatblygu. Rwy'n gyfrifol am bopeth sy'n ymwneud a datgarboneiddio, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd ar draws y busnes, sy'n golygu fy mod yn gweithio i wneud ein cartrefi mor fforddiadwy i'w cynhesu â phosibl i breswylwyr ac i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Rwy'n rheoli'r timau sy'n gyfrifol am waith effeithlonrwydd ynni, cymorth ac addasiadau ac arolygu technegol ar gartrefi newydd. Mae'r gwaith yr wyf i yn ymwneud ag o yn mynd ar draws y busnes felly mae fy nyddiau yn amrywiol iawn.

> **"Rwy'n mwynhau gwneud gwahaniaeth i fywydau preswylwyr, yn arbennig trwy helpu i leihau eu costau ynni."**



Gyda'r tîm ynni, rydym yn gyfrifol am osod camau effeithlonrwydd ynni ar draws holl gartrefi ClwydAlyn, gan ganolbwyntio ar y rhai lleiaf effeithlon yn gyntaf. Rwyf yn ymwneud â siarad gyda phreswylwyr, rheoli contractwyr, arolygu gwaith, esbonio technolegau newydd i breswylwyr a rheoli cyllidebau gan gynnwys cyllid grant.

Rwy'n mwynhau gwneud gwahaniaeth i fywydau preswylwyr yn neilltuol trwy helpu i leihau eu costau ynni. Rwyf yn naturiol chwilfrydig ac yn mwynhau'r rhan o'm swydd lle gallaf archwilio ac ymchwilio i dechnoleg newydd a blaengaredd o ran deunyddiau sydd â'r



**“Nid oes yr un dau ddiwrnod yr un fath—mae cymaint o bethau gwych yn digwydd, ac mae’n gyfnod gwirioneddol gyffrous sy’n symud yn gyflym.”**

potensial i wella’r manteision yr ydym yn gallu eu cynnig i breswylwyr.

Mae’r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yn cynnwys safonau effeithlonrwydd ynni ac felly rwy’n gweithio’n glos gyda chydweithwyr eraill i gynllunio sut y gallwn gael y gwerth gorau o raglenni gwario yn y dyfodol a threfnu gwaith i wneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni.

Rwy’n cael y cyfle i fynd i ddigwyddiadau a chynadleddau, ar-lein ac yn y cnawd, i ddysgu gan sefydliadau eraill yn y diwydiant a chydweithio â nhw (cymdeithasau tai, contractwyr, elusennau, cynlluniau cymunedol, Llywodraeth Cymru a llawer o rai eraill) a hefyd yn cael y cyfle i gyflwyno a rhannu ein profiadau ni a’r gwaith gwych sy’n cael ei wneud yn ClwydAlyn.

Rwyf hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith ‘gwyrdd’ sy’n digwydd yn ClwydAlyn.

Yn ddiweddar fe wnaethom drefnu diwrnod plannu bylbiau yn Llanrwst gyda Grŵp Cynefin a Cartrefi Conwy. Fe wnaethom gynnwys 120 o ddisgyblion o’r ysgol leol yn ystod y dydd a phlannu 4,500 o fylbiau. Fe wnes i helpu i gynllunio, trefnu a rhedeg y diwrnod. Rwyf hefyd yn rhan o’r broses o fapio ein hôl troed carbon fel busnes a gweithio gydag ymgynghorwyr i ddatblygu ein strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd am y 5 mlynedd nesaf.

Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i barhau i leihau allyriadau carbon a chynyddu bioamrywiaeth. Bydd yn ymwneud â phob maes o’r busnes ac felly byddaf yn gweithio gyda fy nghyd-weithwyr a phreswylwyr ar draws y sefydliad.

Oherwydd fy mod yn rhan o gymaint o amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni, nid oes yr un dau ddiwrnod yr un fath! Mae llawer o bethau gwych yn digwydd ac mae’n amser gwirioneddol gyffrous a phethau’n symud yn gyflym. ”

## Awgrymiadau Ynni’r Gaeaf



- Gostyngwch eich thermostat o 1°C a gosod rhaglen wresogi.



- Cymrwch gawodydd byrrach o 1-2 funud.



- Awyrwch eich cartref am 15-20 munud cyn gadael i’w wneud yn haws ei gynhesu yn nes ymlaen.



- Defnyddiwch bopty araf neu bopty aer ar gyfer prydau.




- Golchwch ddillad ar 30°C os nag oes staen arnyn nhw.



- Gwiriwch safleoedd cymharu prisiau i gael gwell bargen ynni.
- Diffoddwch offer yn y wal.

## Cwestiwn:

# Safon Ansawdd Tai Cymru:

## Beth ydi hwn a sut mae'n effeithio arnoch chi?

**Ateb:** Ynyr Parri, Swyddog Asedau Arweiniol ac yn rheoli'r rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru

Yn ClwydAlyn, rydym am greu cartrefi o ansawdd rhagorol a fforddiadwy. Dyna pam ein bod yn falch o ddilyn Safon Ansawdd Tai Cymru Llywodraeth Cymru (WHQS).

Mae'r Safon Ansawdd yn effeithio ar landlordiaid tai cymdeithasol fel ni a'n preswylwyr. Mae llawer o wybodaeth ar gael, felly rydym wedi llunio'r canllaw syml hwn i'ch helpu i ddeall beth mae'r Safon yn ei olygu i chi.

### Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru?

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Safon i osod safonau newydd i dai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r safonau hyn yn sicrhau bod cartrefi preswylwyr:

- Mewn cyflwr da
- Yn ddiogel a saff
- Yn effeithlon o ran ynni ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd
- Ag ystafell ymolchi a chegin addas
- Yn gyfforddus ac addas i anghenion y preswyliwr
- Ac â gardd a lle tu allan os yn bosibl

Mae cartrefi sy'n cyrraedd y safonau hyn yn llwyddo o ran y Safon. Os na fydd cartref yn eu cyrraedd, mae'n rhaid i'r landlord ddweud pam wrth Lywodraeth Cymru.

Roeddem yn falch iawn bod y safonau yma yn cyd-fynd â'n cenhadaeth i roi cartref diogel, saff ac o safon uchel i chi, boed yn adeilad newydd neu yn eiddo hŷn. Rhaid i'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru fodloni'r safonau hyn, fel bod pob preswyliwr yn gallu teimlo'n hapus yn ei gartref.

### Sut mae hyn yn effeithio arnoch chi?

Bydd angen i ni arolygu ein holl eiddo a chasglu gwybodaeth i weld beth sydd angen ei wneud i fodloni'r Safon. Mae'r profion yma wedi dechrau



yn barod a byddant yn parhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn trefnu amser cyfleus i syrfëwr ymweld â'ch cartref i wirio popeth. Ar ôl i ni gynnal y gwiriadau yma, byddwn yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi. Yn yr un ffordd ag unrhyw brosiect datblygu, rydym bob amser yn anelu at fod o fudd a chefnogi'r gymuned leol a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth gyflawni'r Safon, gan roi gwybodaeth i chi bob cam o'r ffordd.

### Ble gallwch chi gael rhagor o wybodaeth

Rydym wedi trafod y prif bwyntiau yma, ond os hoffech chi gael mwy o fanylion am y Safon, ewch i:

**Manylion llawn:** www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0
**Fersiwn hawdd ei darllen:** www.llyw.cymru/sites/default/ files/publications/2024-06/safon-ansawdd-tai- cymru-2023-hawdd-ei-ddarllen_0.pdf

Neu os hoffech chi siarad ag un o aelodau cyfeillgar ein tîm am Safon Ansawdd Tai Cymru a sut mae'n effeithio arnoch chi a'ch cartref, ffoniwch ar **01745 536 800** neu anfon e-bost at: **ynyr.parri@clwydalyn.co.uk**.




## **Cwestiwn:** Rhanberchennog cartref – **“**Helo, ar hyn o bryd rwy’n berchen ar gyfran o’m cartref, a allaf brynu rhagor neu fod yn berchennog cyflawn ar y cartref?**”**

**Ateb:** Claire Grundy, Swyddog Gwerthiant a Dringo’r Grisiau

Os ydych chi’n berchen ar gyfran o’ch cartref gyda ClwydAlyn ar hyn o bryd, efallai y gallwch chi brynu mwy o gyfran, neu eich cartref yn gyflawn. Gelwir hyn yn ‘Dringo’r grisiau’.

### Manteision Dringo’r Grisiau:

- Gostwng y rhent y byddwch yn ei dalu neu ei atal yn llwyr (os byddwch yn prynu’ eich cartref yn gyflawn)
- Mwyaf yn y byd o gyfrannau yr ydych yn berchen arnyn nhw, mwyaf yn y byd o elw y gallwch chi ei wneud wrth werthu eich cartref

**Mae gennym gynnig arbennig ar hyn o bryd a allai fod o fudd i chi...**

**Dim ffi Dringo’r grisiau i’w thalu os caiff ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2025** a’r **Ffi brisio £250 yn cael ei had-dalu wrth gwblhau’r pryniant**



Am sgwrs anffurfiol i drafod eich dewisiadau, ac i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Claire Grundy ar **07967 277 015** neu anfonwch e-bost at **Claire.Grundy@clwydalyn.co.uk**



# Pos y Cestyll

## Cyfle i chi ennill talebau siopa!

Mae gennym dair taleb siopa £50 i'w hennill... y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw cyfateb lluniau'r cestyll â'r Sir ac fe allech fod yn un o'n henillwyr lwcus!






















| | |
|---|---|
| **A - Powys** | **E - Conwy** |
| **B - Wrecsam** | **F - Gwynedd** |
| **C - Sir y Fflint** | **G - Ynys Môn** |
| **D - Sir Ddinbych** | |

Er mwyn cael cyfle i ennill, anfonwch eich atebion at Laura McKibbin, gallwch eu hanfon trwy e-bost at **InfluenceUs@clwydalyn.co.uk** neu eu hanfon trwy WhatsApp at **07880431004**. Dyddiad cau 6 Ionawr.